



**YSGOL  
LLANFYLLIN**

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y tymor mwyaf anarferol a heriol o fy 22 mlynedd o ddysgu, gallwn ni edrych yn ôl â chryn falchder ar yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni fel ysgol pob oed gymunedol.

Mae eich plant wedi addasu'n wych i'r holl newidiadau rydyn ni wedi gorfod eu gwneud er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd ysgol mor ddiogel â phosibl o ran COVID-19 ac wedi gweithio'n gynhyrchiol gyda'u hathrawon dros y tymor diwethaf boed yn y dosbarth neu ar-lein.

Y tymor hwn, rydyn ni'n falch iawn bod presenoldeb yn yr ysgol wedi bod mor uchel a'n bod ni wedi bod yn ffodus, yn y cyd-destun cenedlaethol, mai nifer bach o achosion gawson ni a arweiniodd at rai disgyblion yn gorfod gweithio o gartref a hunan-ynysu.

Rydyn ni'n hynod o falch o'n staff a'n myfyrwyr sydd wedi gorffen eu dysgu a'u haddysgu ar-lein yr wythnos hon. Mae'n deyrnged go iawn i'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a theuluoedd ein bod ni gyda'n gilydd wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod dysgu ystyrlon wedi parhau. Fel rhiant fy hun rydw i'n deall mor anodd ydy hi i ysgogi a chefnogi'ch plentyn gartref pan eich bod chi'n gweithio'ch hun. Ga' i gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth gwych i'ch plant a'r ysgol. Mae gwynwch a phenderfyniad y disgyblion i lwyddo yn wyneb yr heriau presennol i'w haddysg wedi gwneud cryn argraff arnon ni; maen nhw'n fodolau rôl ardderchog i'n cymuned gyfan.

Pan fyddwn ni'n dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr mae'n bwysig iawn bod rhieni'n wylidwrus ac ddim yn anfon eu plant i'r ysgol os ydyn nhw'n sâl ac yn arbennig os oes ganddyn nhw unrhyw un o'r 3 phrif symptom o Covid (tymheredd uchel; peswch parhaus; colli y gallu i flasau neu arogl).

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth gwerthfawr, parhaus. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych chi unrhyw bryderon y gallwn ni eich helpu i'w datrys. Cofiwch bod y tymor newydd yn dechrau ar y dyddiad newydd sef dydd Mercher y 6<sup>ed</sup> Ionawr 2021.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi i gyd ar yr amser arbennig hwn o'r flwyddyn a gobeithio y bydd 2021 yn dod â iechyd ac hapusrwydd i'ch rhan. Gan ddymuno i chi Nadolig heddychlon, ymlaciol, diogel a hapus iawn.

**Nadolig Llawn** i chi i gyd oddi wrth bawb yn Ysgol Llanfyllin.

Pob hwyl.

Yn gywir

Mr Dewi Owen

Pennaeth

---

**Cysylltwch / Contact**

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ  
Ffôn / Telephone: (01691) 648391  
office@llanfyllin.powys.sch.uk  
www.llanfyllin.powys.sch.uk

**Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team**

**Pennaeth / Headteacher:**  
Mr Dewi Owen  
**Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:**  
Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyl /  
Assistant Headteachers**

Mr Huw Lloyd-Jones  
Mrs Ann Roberts  
Mrs Sioned Vaughan

**Rheolwr Busnes/Business Manager**

Mrs Sarah Hunter  
**CADY/ALNCO**  
Mrs Rhiannon Molyneux